

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5
(CYLCHFAN HALTON I GYLCHFAN
WHITEHURST, Y WAUN, BWRDEISTREF
SIROL WRECSAM) (GWAHARDDIADAU A
CHYFYNGIAD TRAFFIG DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A5 rhwng Cylchfan Halton a Chylchfan Whitehurst, i'r gogledd o'r Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Effaith y Gorchymyn yw:

i. gwahardd dros dro pob cerbyd (ac eithrio'r rheini sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), beicwyr a cherddwyr rhag teithio rhwng Cylchfan Halton a Chylchfan Whitehurst.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin o Gylchfan Halton fydd ar hyd yr A5 tua'r de i Gylchfan Gledrid a'r B5070 tua'r gogledd i ailymuno â'r gefnffordd wrth Gylchfan Whitehurst: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o Gylchfan Whitehurst.

ii. gosod terfyn cyflymder o 50 mya, 40 mya, 30 mya neu 10 mya dros dro ar y darn o'r A5 a ddisgrifir uchod. Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Medi 2021. Disgwylir i'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro weithredu dros nos (19:00 - 06:00 awr) yn ysbeidiol o 1 Medi 2021 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad am yr holl waith sy'n cael ei wneud yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei arddangos cyn i'r gwaith ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trawnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trawnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A5 TRUNK ROAD (HALTON
ROUNDAABOUT TO WHITEHURST
ROUNDAABOUT, CHIRK, WREXHAM COUNTY
BOROUGH) (TEMPORARY TRAFFIC
PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER
2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A5 trunk road between Halton Roundabout and Whitehurst Roundabout, north of Chirk, Wrexham County Borough.

The effect of the Order is to:

i. temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), cyclists and pedestrians from travelling between Halton Roundabout and Whitehurst Roundabout.

The alternative route for westbound traffic from Halton Roundabout will be via the southbound A5 to Gledrid Roundabout and northbound B5070 to re-join the trunk road at Whitehurst Roundabout: vice versa for eastbound traffic from Whitehurst Roundabout.

ii. impose a temporary 50 mph, 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the length of the A5 described above. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at such times.

The Order comes into force on 1 September 2021. The temporary prohibitions and restrictions are expected to operate overnight (19:00 – 06:00 hours) on an intermittent basis from 1 September 2021 for a maximum duration of 18 months. Notice of all works being undertaken during this period will be displayed prior to their commencement.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government